

WE ARE  
MACMILLAN.  
CANCER SUPPORT

'NES I DDOD O HYD  
I LWMP AR FY MRON  
PAN OEDDWN I YN Y BATH.  
RO'N I'N GWYBOD BOD  
RHAID I FI FYND I WELD  
RHYWUN AMDANO'

Wendy



**Canser y fron yw'r cancer mwyaf cyffredin ymysg menywod yn y Deyrnas Unedig. Mae'n fwy cyffredin mewn menywod dros 50 oed, ac mae 1 ym mhob 3 achos o ganser y fron yn datblygu mewn menywod dros 70 oed. Gall dynion gael cancer y fron hefyd, ond mae hynny'n anghyffredin iawn.**

Gallai gwybod pa newidiadau i gadw golwg arnynt a phryd i fynd i weld meddyg wneud gwahaniaeth mawr. Peidiwch â mynd i boeni os yw'r symptomau hyn gennych - ewch i weld rhywun.

Ewch i weld eich meddyg os ydych yn profi unrhyw rai o'r symptomau hyn:

- Lwmp neu ymchwydd trwchus yn eich bron neu gesail.
- Newid ym maint neu siâp eich bron.
- Newidiadau ar eich teth, fel brech, rhedlif neu'r deth yn troi i mewn.
- Newidiadau i groen ar eich bron, fel crychu neu bantiau.
- Poen neu annifyrrwch cyson yn eich bron.

Serch hynny, nid cancer sy'n achosi'r rhan fwyaf o newidiadau i'r bronnau. Ond os ydych chi'n sylwi ar rywbeth sy'n anghyffredin i chi, ewch i weld eich meddyg.

Dysgwch sut mae eich bronnau'n teimlo ac yn edrych. Os byddant yn newid, bydd hyn yn eich helpu i ganfod pethau'n gynnar.

Dydych chi ddim yn gwastraffu amser eich meddyg os ydych chi'n gofyn iddo archwilio'ch symptomau.

Y cynharaf y canfyddir cancer y fron, y mwyaf tebygol y bydd y driniaeth yn llwyddiannus.

Os oes angen cefnogaeth arnoch neu efallai sgwrs â rhywun, ffoniwch Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00** neu ewch i **macmillan.org.uk**